# Dyfarnu trwydded amlblecs radio graddfa fach: Wrecsam

## Cefndir

Mae Ofcom wedi penderfynu dyfarnu trwydded amlblecs radio graddfa fach newydd ar gyfer Wrecsam i Wrexham DAB Limited ('Wrexham DAB').

Wrth ystyried y ceisiadau y mae'n eu derbyn am drwyddedau amlblecs radio graddfa fach, mae'n ofynnol i Ofcom ystyried pob un o'r meini prawf statudol a nodir yn adran 51(2) Deddf Darlledu 1996 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Amlblecs Radio Graddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. cwmpas yr ardal (o fewn yr ardal neu'r lleoliad a nodir yn yr hysbysiad gan Ofcom yn gwahodd ceisiadau) y bwriedir darparu gwasanaeth iddi gan yr ymgeisydd yn y cynllun technegol a gyflwynwyd yn ei gais; (adran 51(2)(a))

2. gallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig; (adran 51(2)(c))

3. dymunoldeb dyfarnu'r drwydded i ymgeisydd sydd:
   a. yn berson sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r lleoliad hwnnw, neu
   b. â pherson fel cyfranogwr sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r lleoliad hwnnw; (adran 51(2)(ca))

4. i ba raddau y ceir tystiolaeth, ymhlith personau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal neu'r lleoliad hwnnw, fod galw am, neu gefnogaeth dros, ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig; (adran 51(2)(f)) a

5. pha un a yw'r ymgeisydd, wrth gontractio neu gynnig contractio gyda phersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol, wedi gweithredu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. (adran 51(2)(g)).

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn graddio'r gofynion hyn yn nhrefn blaenoriaeth, ond mae'n bosib y bydd Ofcom yn gweld bod un neu fwy o'r meini prawf yn arbennig o bwysig o ystyried nodweddion y drwydded sydd i'w dyfarnu a'r ceisiadau a gyflwynwyd ar ei chyfer.

Dyluniwyd gogledd-orllewin Lloegr a gogledd-ddwyrain Cymru, y mae'r lleoliad hwn yn rhan ohonynt, fel 'ardal facro' oherwydd y posibilrwydd na fyddai digon o sbectrwm ar gael i alluogi dyfarnu trwydded ym mhob ardal a hysbysebwyd. Gan hynny, mabwysiadodd Ofcom broses dau gam. Yn gyntaf, bu i ni benderfynu dros dro pa un a fyddem yn dyfarnu trwydded ym mhob ardal unigol ac i bwy, gan gymhwyso'r meini prawf statudol. Yn ail, a ninnau wedi dod i farn dros dro mewn perthynas â phob ardal, bu i ni asesu a oedd digon o sbectrwm i ddyfarnu trwyddedau yn yr holl ardaloedd y derbyniwyd ceisiadau derbyniol ganddynt. Nododd yr hysbysiad fu'n gwahodd ceisiadau, os nad oedd digon o sbectrwm i alluogi ni i wneud dyfarniad ym mhob ardal, y byddem yn rhoi blaenoriaeth i ardaloedd lle neilltuwyd mwy o gapasiti ar gyfer gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol (fel y pennwyd yn yr hysbysiad) a, lle'r oedd niferoedd cyfartal o slotiau wedi'u

neilltuo, i ardaloedd sydd â mwy o wasanaethau cymunedol analog a drwyddedir y mae eu hardal o ddarpariaeth yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r amlblecs graddfa fach arfaethedig.

## Asesu ceisiadau

Ar 1 Mehefin 2021, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau amlblecs radio graddfa fach mewn sawl ardal, gan gynnwys Wrecsam.

Derbyniodd Ofcom un cais mewn ymateb i'w hysbysiad yn gwahodd ceisiadau ar gyfer yr ardal hon erbyn dyddiad cau'r ceisiadau, sef 1 Tachwedd 2021, gan Wrexham DAB.

Roedd copi o ran anghyfrinachol y cais ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ar wefan Ofcom, a gwahoddwyd sylwadau cyhoeddus yn unol â gofynion adran 50(7).

Asesodd cydweithwyr Ofcom fanylion y cais, gan gynnwys cynnal asesiad o'r cynllun technegol y mae'n ofynnol i'w cyflwyno fel rhan o bob cais. Gwnaed y penderfyniad dros dro mewn perthynas â Wrecsam gan banel penderfynu yn Ofcom mewn cyfarfod ar 18 Mawrth 2022. Buont yn ystyried y cais, sylwadau cyhoeddus a dderbyniwyd, a chyngor proffesiynol gan gydweithwyr Ofcom yn ofalus, ac yn cymhwyso'r meini prawf statudol wrth ddod i'w penderfyniad ynghylch a ddylid dyfarnu trwydded. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros eu penderfyniad isod.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(a), cynigiodd Wrexham DAB safle trawsyrrydd unigol i ddarparu gwasanaeth i'r ardal a hysbysebwyd. Nododd cyfrifiadau Ofcom i hyn olygu y byddai ychydig o dan 80% o'r boblogaeth oedolion yn ardal y drwydded a hysbysebwyd yn gallu derbyn y gwasanaeth. Dangosodd ein rhagfynegiadau darpariaeth na fyddai angen mesurau lliniaru i sicrhau bod gorgyffyrddiad y boblogaeth rhwng ardal ddarpariaeth yr amlblecs graddfa fach arfaethedig ac unrhyw amlblecsau lleol yn aros o dan 40%, nac er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth a ragfyngegwyd y tu allan i'r ardal a hysbysebwyd o dan 30%. Nodwyd bod y ddarpariaeth a ragfynegwyd yn gwasanaethu'r mwyafrif o'r ardal a hysbysebwyd ond, oherwydd yr antena gyfeiriol, gwasanaethir ochr orllewinol yr ardal a hysbysebwyd yn llai da. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ystyriodd Ofcom fod y ddarpariaeth a ragfynegwyd o fewn yr ardal a hysbysebwyd yn dda. Disgrifir manylion y ddarpariaeth sy'n debygol o gael ei chyflawni ar ôl cwblhau'r broses dyrannu amleddau ar gyfer 'ardal facro' gogledd-orllewin Lloegr a gogledd-ddwyrain Cymru isod.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(c), ystyriodd Ofcom gynlluniau ariannol a busnes yr ymgeisydd, ei gynllun technegol, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth, a thystiolaeth o arbenigedd a phrofiad perthnasol. Roedd Ofcom o'r farn y byddai'r ymgeisydd mewn sefyllfa i sefydlu'r gwasanaeth o fewn 18 mis i ddyddiad y dyfarniad yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth. Nododd y sawl a wnaeth y penderfyniad brofiad cymunedol a masnachol y cyfarwyddwyr a'r cyllid diogel sydd ar gael gan ddau o'r cyfarwyddwyr, a nodwyd hefyd fod y cynllun yn ymwneud â thrawsyrrydd unigol, a fydd yn tueddu i ostwng yr heriau sydd ynghlwm wrth sefydlu'r gwasanaeth.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(ca), nododd Ofcom fod Wrexham Community Radio CIC, sy'n dal 10% o gyfranddaliadau Wrexham DAB Limited, yn bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol (Calon FM) ar yr amlblecs. Ystyrir bod cyfranogiad person sy'n cynnig darparu gwasanaeth C-DSP yn nodwedd ddymunol o dan y meini prawf dyfarnu, ac mae Calon FM yn drwyddedai radio cymunedol analog yn Wrecsam, gan ddarparu lefel o hyder y byddai'r C-DSP arfaethedig yn cael ei ddarparu wrth i'r amlblecs lansio.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(f), ystyriodd Ofcom dystiolaeth o alw neu gefnogaeth gan bersonau sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain cymunedol neu leol digidol yn yr ardal a hysbysebwyd, a daeth i'r casgliad fod Wrexham DAB wedi dangos lefel gref o alw am ei amlblecs gan nifer o ddarpar ddarparwyr DSP posib, trwy ddarparu cytundebau 'pennau termau' wedi'u llofnodi. Nododd Ofcom mai dim ond un mynegiad o ddiddordeb oedd gan ddarpar ddarparwr C-DSP, ond bod hyn yng nghyd-destun neilltuo capasiti ar gyfer yr isafswm statudol o dri gwasanaeth, a'i fod gan ddarparwr gwasanaeth cymunedol analog presennol a allai annog diddordeb pellach gan eraill maes o law.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(g) ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd, wrth gontractio neu gynnig contractio gyda phersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol, wedi gweithredu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Daeth panel gwneud penderfyniadau yn Ofcom ynghyd eto ar  7 Ebrill 2022 i ystyried a oedd digon o sbectrwm i ddyfarnu trwyddedau yn yr holl leoliadau yn 'ardal facro' gogledd-orllewin Lloegr a gogledd-ddwyrain Cymru lle y derbyniwyd cais derbyniol ac, os nad oedd, ym mha ardaloedd y dylid cadarnhau'r penderfyniad dros dro i wneud dyfarniad. O dan y cynllun sbectrwm y cytunwyd arno yn y cyfarfod hwn, dyrannwyd bloc amledd 9B i amlblecs Wrecsam, yr ydym yn amcangyfrif y byddai'n galluogi'r amlblecs arfaethedig i ddarparu ar gyfer ychydig dros 79% o'r boblogaeth yn yr ardal darpariaeth a hysbysebwyd gan Ofcom.

Nodir nad yw dyfarnu trwydded yn rhoi'r hawl i'r dyfarnai weithredu pob elfen o'r cynllun technegol a gyflwynwyd i Ofcom fel rhan o'r cais llwyddiannus. Bydd Ofcom yn trin cynigion yn y cynllun hwnnw, ar y sail y gwnaed y dyfarniad arni, fel pethau y mae'r ymgeisydd llwyddiannus wedi ymrwymo i'w cyflawni o fewn y cyfnod 18 mis a ganiateir rhwng dyfarnu a lansio. Fodd bynnag, am resymau cynllunio sbectrwm, mae’n bosib y bydd Ofcom yn mynnu diwygiadau i gynigion rhwng dyfarnu a rhoi’r drwydded.

**Mai 2022**